# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi rhwng 12:30 a 13:30 yn Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead

**Yn bresennol:** gweler y rhestr sydd wedi'i hatodi

**Croeso a chyflwyniad:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AC (y Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod a diolchodd Nick Rearden o Raleigh, Pedal Power, a Nextbike a Chyngor Caerdydd am ddarparu'r e-feiciau yr oedd nifer o Aelodau Cynulliad, gan gynnwys y Prif Weinidog a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, wedi gallu rhoi cynnig arnynt cyn dechrau'r cyfarfod. Diolchodd Phil Snaith hefyd am awgrymu y dylid neilltuo cyfarfod i drafod e-feiciau.

**Trafodaeth y Panel - y Chwyldro E-feiciau:** Esboniodd y Cadeirydd mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried beth oedd gan e-feiciau i'w gynnig i Gymru a sut y gallem reoli'r broses o'u cyflwyno er mwyn osgoi creu problemau i deithwyr eraill sy'n defnyddio dulliau llesol. Dywedodd fod e-feiciau yn hynod boblogaidd ar gyfandir Ewrop, ond am ryw reswm roeddent wedi bod yn araf iawn i ennill eu plwyf yng Nghymru a'r DU.

Cyflwynodd y panel a fyddai'n arwain y drafodaeth: Rebecca Brough, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth Cerddwyr Cymru; Sian Donovan, Cyfarwyddwr Pedal Power, yr elusen yng Nghaerdydd sy'n sicrhau y gall pawb roi cynnig ar feicio; Roger Geffen, Cyfarwyddwr Polisi Cycling UK; a Tom Wells, perchennog New Image Bicycles Aberteifi sydd wedi ymgyrchu dros feicio ers blynyddoedd lawer. Gwahoddodd y Cadeirydd bob aelod o'r panel i wneud datganiad agoriadol.

Siaradodd Roger Geffen am y cyfraniad sylweddol y gallai e-feiciau ei wneud i leihau allyriadau carbon. Pwysleisiodd bwysigrwydd e-feiciau a rennir, sy'n caniatáu i bobl roi cynnig ar feicio heb wario gormod o arian ac fel ffordd wych o sicrhau bod modd i fwy o bobl yn mwynhau beicio. Gofynnodd pam y dylai grantiau'r Llywodraeth fod ar gael ar gyfer ceir trydan ond nid beiciau trydan. Esboniodd pa mor bwysig yw cynnal gwahanol reoliadau ar gyfer e-feiciau a beiciau modur trydan.

Soniodd Tom Wells am bwysigrwydd e-feiciau mewn ardaloedd gwledig ac i bobl hŷn, sy'n prynu nifer fawr o feiciau trydan ac sy'n sector hyd yn oed fwy sylweddol o'r boblogaeth. Credai fod e-feiciau yn cystadlu â cheir yn hytrach na beiciau confensiynol. Roedd ef ei hun wedi defnyddio e-feic fel prif ddull trafnidiaeth ers pum mlynedd ac, am fod ganddo anabledd, roedd hefyd yn gymorth o ran symudedd.

Amlinellodd Sian Donovan y gwasanaethau a gynigir gan Pedal Power, gan adrodd bod ganddynt 1,200 o aelodau. Eu prif nod yw galluogi pobl i newid eu ffordd o fyw a chaniatáu i bawb fwynhau beicio. Siaradodd am gleient â chlefyd Parkinson oedd wedi gallu adfer ei annibyniaeth drwy ddefnyddio e-feic ICE. Roedd hi'n argyhoeddedig y byddai e-feiciau yn ei gwneud yn haws iddynt gynnig cyfleoedd beicio i gynifer o bobl â phosibl.

Soniodd Rebecca Brough am rôl y Cerddwyr fel eiriolwyr dros gerdded a sut roeddent yn gwneud llawer i hyrwyddo teithio llesol. Eu prif nod oedd gweld mwy o bobl yn mwynhau'r awyr agored. Dywedodd er mai cerdded yw'r dull rhataf o deithio llesol nid yw bob amser yn gydnaws â beicio a'u bod am weithio gyda sefydliadau eraill i osgoi gwrthdaro. Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr her bosibl yn sgil niferoedd cynyddol o e-feiciau mynydd.

Agorwyd y drafodaeth i'r llawr gan ganolbwyntio ar y pwyntiau canlynol.

Fforddiadwyedd: roedd diffyg cefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth yn rhwystr mawr. Roedd angen ymestyn y cynllun Beicio i'r Gwaith i e-feiciau. Dywedodd Roger Geffen fod Llywodraeth y DU

yn mynnu, er gwaethaf y dystiolaeth fel arall, na fyddai e-feiciau yn denu pobl allan o'u ceir. Fodd bynnag, roeddent yn treialu cymhorthdal ar gyfer e-feiciau sy'n cario llwythi. Nodwyd bod Llywodraeth Jersey a Llywodraeth Guernsey yn cynnig cymorthdaliadau ar gyfer e-feiciau.

Iechyd: Dylai GIG Cymru ystyried darparu cyllid, efallai drwy gynlluniau beiciau ar bresgripsiwn (mae cynllun peilot ar gyfer hyn) neu drwy sefydliadau cymunedol fel Pedal Power.

Ehangu apêl beicio: gallai e-feiciau apelio at nifer sylweddol o'r 80 y cant o bobl nad ydynt erioed wedi beicio.

Arwain drwy esiampl: Roedd hi'n gadarnhaol iawn gweld yr heddlu yn defnyddio e-feiciau. Mae angen eiriolwyr ar lefelau uwch yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae Nextbike UK yn cynnig aelodaeth gorfforaethol.

Trafnidiaeth gyhoeddus: Roedd hi'n bwysig integreiddio'r defnydd o e-feiciau gyda theithio ar y bws ac ar y trên. Roedd gan Trafnidiaeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae.

**Cycle on the Senedd 2019:** Fe'i cynhaliwyd 2 Hydref. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb wneud ymdrech i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cymryd rhan.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019 yn gofnod cywir. Darperir adroddiad llawn ar y prosiect parhaus sy'n canolbwyntio ar deithio llesol ac ysgolion yn y cyfarfod nesaf.

**Unrhyw fater arall:** Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod y byddai ef a'r Ysgrifennydd yn cael eu cyfarfod cyntaf â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn fuan ac yn cael cyfarfodydd chwarterol rheolaidd ar ôl hynny. Rhybuddiodd aelodau hefyd am yr arddangosfa ffotograffiaeth ar thema beicio a oedd i'w gweld yn y Senedd ar hyn o bryd.

**Diolchodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad |
|---|---|---|
| Huw | Irranca-Davies | Aelod Cynulliad |
| Jenny | Rathbone | Aelod Cynulliad |
| Richard | Evans | (Yn cynrychioli Jane Hutt AC) |
| Thomas | Pinder | (Yn cynrychioli David Melding AC) |
| Rebecca | Brough | Y Cerddwyr |
| Richard | Brunstrom | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Samuel | Coldham | Nextbike UK |
| Sian | Donovan | Pedal Power |
| Roger | Geffen | Cycling UK |
| Matthew | Gilbert | Trafnidiaeth Cymru |
| Owain | Griffiths | Beicio RhCT |
| Ellen | Jones | Sustrans Cymru |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| George | Leach-Hutchings | Y Prosiect Teithio Llesol ac Ysgolion |
| Hugh | McKay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| David | Naylor | Wheelwrights |
| Gareth | Price | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |
| Matt | Price | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Nick | Rearden | Raleigh UK Ltd |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd CPGATA |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Tom | Wells | Cycling UK Aberteifi |
| Caro | Wild | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Phil | Zschiesche | ICE Trikes |